## Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Nefyn

**Addysg Grefyddol**

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae safonau mewn addysg grefyddol yn dda yn yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad mewn termau syml am eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain a rhai pobl eraill. Yn ogystal, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o'r dysgwyr yn gallu gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau o grefydd. Mae llawer yn dwyn i gof ac yn ymateb i rai credoau, dysgeidiaethau ac ymarferion crefyddol sylfaenol a ymchwilir iddynt. Maent yn gallu defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas megis siarad am lyfrau arbennig fel y Beibl i Gristnogion a defnyddio geirfa yn ymwneud ag achlysuron arbennig o fewn Cristnogaeth e.e. Nadolig, Pasg.

Erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu trafod eu hymatebion eu hunain ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas ac am grefydd. Maent yn gallu disgrifio a cychwyn esbonio y credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a ymchwilir ganddynt. Gwelir hyn yn y gwaith y wnaethpwyd ar ymchwilio i sut mae gwahanol grefyddau yn dweud diolch a phwysigrwydd o ddiolch i wahanol grefyddau. Yn ogystal mae bron bob dysgwr yn gallu cyfeirio yn benodol at y ffyrdd y bydd yr agweddau yma yn effeithio ar fywydau credinwyr. Er enghraifft sut mae'r ffordd mae diolch mewn gwahanol grefyddau yn effeithiol ar eu ffordd o fyw e.e. diolchgarwch i'r Cristnogion, Eid-ul-fitr mewn Islam a Sukkot i'r Iddewon. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hefyd yn dechrau nodi'r gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng crefyddau.
Maent yn gallu esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill. Yn ogystal maent yn adnabod rhai symbolau crefyddol ac yn gallu defnyddio ystod o eiriau crefyddol. Gallent ddefnyddio geirfa yn ymwneud â man addoli, digwyddiadau a gwyliau grefyddol ac adnabod symbolau fel y groes mewn Cristnogaeth, seren Dafydd mewn Iddewiaeth.

**Materion i gael sylw**

Er fod dysgwyr yn cyflawni yn dda yn y pwnc erbyn cyrraedd diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae angen sicrhau fod gwaith ymestynnol yn cael ei roi i'r dysgwyr mwyaf medrus ar draws yr ysgol er mwyn galluogi i gyrraedd lefelau uwch yn y pwnc a hyn yn cael ei wneud drwy weithgareddau gwahaniaethol ac amrywiol.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Mae'r pwnc yn cael ei addysgu'n reolaidd ym mhob dosbarth ac mae gan yr athrawon wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc. Yn amlwg mae'r athrawon yn manteisio ar y cyfle i ddysgu medrau meddwl drwy astudio'r pwnc. Gwelir ddefnydd o hetiau meddwl, gwaith grŵp a chydweithio a graff ffrwd yn y Cyfnod Sylfaen. Yn Cyfnod Allweddol 2 gwelir ddefnydd o fap meddwl, datrys problemau gyda hetiau meddwl a phennu meini prawf llwyddiant. Yn ogystal mae'r athrawon yn defnyddio addysg grefyddol fel pwnc i ddatblygu sgiliau TGCh gyda brawddegau am y Nadolig a geiriau cyfeillgarwch yn cael eu teipio yn y Cyfnod Sylfaen a gwybodaeth yn cael ei gasglu a'i gyflwyno ar y cyfrifiadur yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynlluniau sydd wedi ei gwneud gan yr athrawon yn sicrhau fod llinynnau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gwau drwy'r

holl feysydd. O ganlyniad mae mwyafrif o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y pwnc yn datblygu sgiliau llythrennedd gyda ambell enghreifftiau o rifedd yn cael eu ddatblygu o fewn y pwnc hefyd.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddarpariaeth gwahanol i addysgu addysg grefyddol. Yn llyfrgell yr ysgol, mae gan bob dosbarth fynediad i wahanol lyfrau yn ymwneud â'r pwnc ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r we fel ffynhonnell i gasglu gwybodaeth. Gwelir ambell arteffactau yn rhai dosbarth ac mae'r ysgol yn y broses o gasglu mwy o arteffactau crefyddol i gyfoethogi'r dysgu. Bydd defnydd effeithiol yn cael ei wneud o asiantaethau allanol megis yr eglwys a'r ficer lleol i ehangu profiadau'r dysgwyr.

Mae arsylwadau gwersi a gwaith y dysgwyr yn dangos safonau uchel mewn addysg grefyddol ar draws bob oedran yn yr ysgol. Gwelir yn ngwaith y dysgwyr fod tasgau a gweithgareddau symbylus yn cael ei gynnig a fod gwahanol agweddau o'r pwnc yn cael ei addysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r dysgwyr wedi cael cyfleodd i ymchwilio ffynonellau a materion sy'n codi drwy storïau, diwrnodau gŵyl a dathliadau drwy ddefnyddio llyfrau a gwyl arbennig fel man cychwyn i'r pwnc. Mae'r dysgwyr yn cael amryw o gyfleodd i drafod materion personol a chymdeithasol yn ystod sesiynau amser cylch ac fel rhan o weithgareddau wythnos gwrth fwlio/ffrind da. Yn Cyfnod Allweddol 2 mae'r dysgwyr yn cael cyfleodd i ymdrin a chwestiynau sylfaenol ac mynegi ymatebion personol. Yn ogystal gwelir enghreifftiau o astudio crefyddau a chredoau gwahanol megis Hindŵaeth, Iddewiaeth, Islam a Christnogaeth.

**Materion i gael sylw**

Parhau i gynllunio gweithgareddau amrywiol ar draws bob oedran a pharhau i gynnig cyfleodd gwahaniaethol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cynnig y lefel her priodol ar gyfer pob disgybl.

Parhau i gasglu arteffactau crefyddol i gyfoethogi'r dysgu.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy * | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae cyfnodau addoli ar y cyd yn cael eu cynllunio yn ddyddiol yn yr ysgol mewn gwahanol ffyrdd. Mae cyfnodau o addoli ar y cyd yn digwydd yn y dosbarthiadau ac mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae'r athrawon yn cynllunio sesiynau effeithiol a bywiog yn y dosbarthiadau. Yn y Cyfnod Sylfaen mae cyfleodd i'r dysgwyr wrando ar storïau moesol a chanu a dweud gweddi a mae chyfleodd i wrando ar ddigwyddiadau moesol sy'n digwydd yn y byd a chreu gweddi eu hunain yn Cyfnod Allweddol 2. Mae amserlen cynllunio gwasanaethau ysgol gyfan i'r athrawon er mwyn sicrhau fod amrywiaeth i'r cynnwys ac maent yn fywiog iawn gyda cyfleodd i'r dysgwyr wrando a chymryd rhan. Mae asiantaethau allanol yn cynnal gwasanaethau'n aml ac byddent yn rai bywiog iawn sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gymryd rhan.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Parhau i sicrhau yr un safon o ddarpariaeth mewn sesiynau addoli ar y cyd.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Llofnod: A.W. Jones (Pennaeth) Miss Nia M Williams (Cyd lynydd)**
**Dyddiad: 27/4/16**